

MEDDYGFA WAUNFAWR

DATGANIAD PREIFATRWYDD

Rydym yn Bractis Meddyg Teulu sy'n gweithio yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Rydym yn rhoi gwasanaeth i boblogaeth o 5767 o gleifion gan weithio ar draws 2 safle ac yn cyflogi nifer o staff yn cynnwys Meddygon Teulu, nyrsys, cynorthwyr gofal iechyd a staff gweinyddol. Mae Meddygfa Waunfawr yn ceisio sicrhau'r safon uchaf o ofal meddygol i'n cleifion. Er mwyn gwneud hyn rydym yn cadw cofnodion amdanoch, eich iechyd a'r gofal rydym wedi'i roi neu'n dymuno ei roi i chi.

Pam rhoi rhybudd preifatrwydd?

Mae Meddygfa Waunfawr yn cydnabod pwysigrwydd diogelu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol ym mhopeth rydym yn ei wneud ac rydym yn cymryd gofal i fodloni ei ddyletswyddau rheolaethol a chyfreithiol. Mae'r rhybudd hwn yn un o'r ffyrdd y gallwn ddangos ein hymrwymiad i'n gwerthoedd a bod yn eglur ac yn agored.

Mae'r rhybudd hwn hefyd yn egluro pa hawliau sydd gennych i reoli sut ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth.

Beth sy'n ein llywodraethu?

Y darnau allweddol o'r ddeddfwriaeth/cyfarwyddyd yw:

- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol
- Deddf Hawliau Dynol 1998 (Erthygl 8)
- Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, 2015
- Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958
- Deddf Hawlfraint Cynllunio a Chleifion 1988
- Ail-ddefnyddio Rheoliadau Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2015
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990
- Dyletswydd Cyfraith Cyffredin Cyfrinachedd
- Rheoli Diogelu Gwybodaeth - Cod Ymarfer GIG

Pwy sy'n ein llywodraethu?

- Adran Iechyd
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- GIG Cymru
- Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)

Pam a sut ydym yn casglu gwybodaeth?

Mae gwybodaeth y gellir cael mynediad ato, lle bydd angen amdano, yn cynnwys:

- gwybodaeth bersonol, fel enw, dyddiad geni, rhyw;
- alergeddau;
- meddyginiaethau;
- derbyniadau i'r ysbyty, rhai sy'n mynychu a dyddiadau cyfeirio;
- brechiadau ac imiwneiddiad;

MEDDYGFA WAUNFAWR

DATGANIAD PREIFATRWYDD

- canlyniadau profion, yn cynnwys mesuriadau fel pwysedd gwaed;
- diagnosis (problemau cyfredol a blaenorol);
- triniaeth a thriniaethau meddygol.

Sut ydym yn defnyddio'r wybodaeth?

- I helpu rhoi gwybod i chi am benderfyniadau y rydym yn eu gwneud am eich gofal
- I sicrhau bod eich triniaeth yn ddiogel ac effeithiol
- I weithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill a all fod yn rhan yn eich gofal
- I gefnogi iechyd y cyhoedd
- I sicrhau bod ein gwasanaethau yn gallu bodloni anghenion y dyfodol
- I adolygu'r gofal a ddarparwyd i sicrhau ei fod o'r ansawdd uchaf posibl
- I hyfforddi gweithwyr proffesiynol gofal iechyd
- Ar gyfer ymchwil ac archwiliad
- I baratoi ystadegau ar berfformiad
- I fonitro sut ydym yn gwario arian y cyhoedd

Mae potensial mawr i ddefnyddio'ch gwybodaeth i ddarparu gofal a gwella gwasanaethau iechyd a gofal ar draws y GIG a gofal cymdeithasol. Gellir defnyddio'r wybodaeth i helpu:

- Gwella gofal unigol
- Deall mwy am achosion a risgiau afiechydon
- Gwella diagnosis
- Datblygu gwasanaethau newydd
- Gwella diogelwch cleifion
- Gwerthuso polisïau/gweithdrefnau/llwybrau

Mae'n helpu oherwydd

- Mae gwybodaeth gywir a chyfredol yn helpu i'n cynorthwyo gyda rhoi'r gofal gorau posibl i chi
- Os ydych yn gweld gweithiwr proffesiynol gofal iechyd arall, neu arbenigwr o ran arall o'r GIG, gallent gael mynediad at y wybodaeth sydd ei angen arnynt i roi'r gofal gorau posibl i chi.
- Lle bo'n bosibl, pan ddefnyddir gwybodaeth i roi gwybod am wasanaethau a darpariaeth y dyfodol, bydd gwybodaeth na fydd modd eich adnabod ohoni yn cael ei defnyddio.

Datgelu Gwybodaeth i Weithwyr Proffesiynol Iechyd a Chymdeithasol Eraill

Rydym yn gweithio gyda nifer o asiantaethau partner a GIG eraill i roi gwasanaethau gofal iechyd i chi, er enghraifft:

- Ysbytai GIG eraill
- Meddygfeydd perthnasol
- Deintyddion, Optegwyr a Fferyllwyr
- Darparwyr y Sector Preifat (ysbytai preifat, cartrefi gofal, hosbisïau, contractwyr sy'n rhoi gwasanaethau i'r GIG)
- Darparwyr y Sector Gwirfoddol sy'n rhan uniongyrchol o'ch gofal
- Gwasanaeth Ambiwllans
- Gwasanaethau Arbenigol
- Staff gofal cymdeithasol a gofal iechyd cysylltiol sy'n gweithio yng Nghlwtwr XXXXX
- Gwasanaeth Meddygol y tu allan i oriau
- GIG Cymru

MEDDYGFA WAUNFAWR

DATGANIAD PREIFATRWYDD

Efallai byddwn hefyd yn rhannu'ch gwybodaeth gyda'ch cydsyniad, yn amodol ar brotocolau rhannu llym, am sut y byddai'n cael ei ddefnyddio, gydag adranau Iechyd a Gofal Cymdeithasol eraill a'r Heddlu a'r Gwasanaethau Tân.

Rhagfynegi Risg

Mae offer data rhagfynegi risg yn cael eu defnyddio'n amlach yn y GIG i helpu penderfynu ar risg unigolyn o ddiodef o gyflwr penodol, atal (ail)derbyniad neu dderbyniad heb ei drefnu ac adnabod yr angen am wybodaeth ataliol. Casglir gwybodaeth amdanoch chi o nifer o ffynonellau yn GIG Cymru yn cynnwys y Feddygfa hon.

Caiff sgôr risg ei roi trwy ddadansoddi eich gwybodaeth nad oes modd eich adnabod gan Wasanaeth Gwybodeg GIG a bydd ond yn cael ei ddarparu'n ôl i'ch Rheolwr Data Meddyg Teulu mewn dull y mae modd eich adnabod. Mae rhagfynegi risg yn galluogi'ch Meddyg Teulu i ganolbwyntio ar atal iechyd gwael ac nid dim ond trin y salwch yn unig. Os bydd angen, efallai bydd eich Meddyg Teulu'n gallu cynnig gwasanaethau ychwanegol i chi.

Fy Iechyd Ar-lein (MHO) - Cofrestrriad Ar-lein i Drefnu Apwyntiadau ac Archebu Ail Bresgripsiynau

Mae cofrestru ar gyfer Fy Iechyd Ar-lein yn eich galluogi chi i drefnu apwyntiad Meddyg Teulu rheolaidd 24 awr y dydd, gohirio apwyntiadau nad oes eu hangen mwyach, gwirio eich ail bresgripsiynau, archebu ail bresgripsiynau a gwneud newidiadau i'ch e-bost a'ch rhif ffôn symudol lle bo angen. Gall cleifion dros 16 mlwydd oed gofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn ac ail-gofrestru ar unrhyw adeg. Gofynnwch yn y dderbynfa os bydd angen gwybodaeth arnoch.

Post i Gleifion

Weithiau byddwn yn defnyddio cwmni argraffu i anfon llythyrau i'n cleifion, er enghraifft i'ch atgoffa am ymgyrchoedd brechiad y fflw. Caiff y data a anfonwyd ei amgryptio a bydd y Cwmni'n ei roi mewn fformat i argraffu'r llythyr, anfon drwy'r Post Brenhinol neu gan negesydd, ac yna dileu'r wybodaeth rydym yn ei anfon.

Negeseuon Testun i Gleifion

Os bydd eich rhif ffôn symudol cyfredol gennym, byddwn yn anfon neges destun yn eich atgoffa o'ch apwyntiad, gwybodaeth am glinigau'r fflw, gwybodaeth hyrwyddo iechyd, gohiriadau i glinigau a newidiadau mewn darpariaeth gwasanaeth. Sicrhewch fod eich rhif ffôn symudol mwyaf cyfredol gennym er mwyn i hyn allu parhau. (Gallwch dynnu allan o'r gwasanaeth hysbysiad neges destun ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r feddygfa).

Crynodeb Gofal Brys (ECS)

Bydd gwybodaeth gofal brys fel eich enw, dyddiad geni, enw'ch Meddyg Teulu, unrhyw feddyginiaethau y mae'ch Meddyg Teulu wedi'u rhagnodi i chi, unrhyw feddyginiaethau y mae gennych alergedd atynt neu'n ymateb yn wael iddynt, yn cael ei rannu gyda'r gwasanaeth y Tu Allan i

MEDDYGFA WAUNFAWR

DATGANIAD PREIFATRWYDD

Oriau gan efallai bydd hyn yn bwysig os bydd angen gofal meddygol brys arnoch pan fydd y Feddygfa ar gau.

Gall staff y GIG (Meddygon, Nyrsys, Adran Achosion Brys, criwiau a rheoli Ambiwylans) edrych ar eich ECS os bydd angen iddynt eich trin pan fydd y feddygfa ar gau. Byddent yn gofyn am eich cydsyniad cyn iddynt edrych ar eich cofnodion. Mewn achos brys ac os ydych yn anymwybodol, efallai bydd staff yn edrych ar eich ECS heb eich cytundeb er mwyn eu helpu i roi'r gofal gorau posibl i chi. Pryd bynnag fydd staff GIG yn edrych ar eich ECS, bydd cofnod yn cael ei gadw fel ein bod yn gallu gwirio pwy sydd wedi edrych ar eich gwybodaeth bob amser.

Rheoli Meddyginiaethau

Efallai bydd y feddygfa'n gwneud Adolygiadau Rheoli Meddyginiaethau o feddyginiaethau a ragnodwyd i'w cleifion. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnal adolygiad o feddyginiaethau a ragnodwyd i sicrhau bod cleifion yn derbyn y triniaethau mwyaf priodol, diweddar a chost effeithiol. Darperir y gwasanaeth hwn gan ein clinigwyr a Fferyllwyr a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

System Gyfrifiadur

Mae'r Feddygfa hon yn gweithredu System Gyfrifiadur Clinigol lle bydd staff GIG yn cofnodi gwybodaeth yn ddiogel. Bydd y wybodaeth hon yna'n cael ei rannu gyda Chlinigwyr eraill fel bod pawb sy'n gofalu amdanoch yn cael y wybodaeth lawn am eich hanes meddygol perthnasol.

Sut ydym ni'n Cadw'ch Gwybodaeth yn Gyfrinachol ac yn Ddiogel?

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd a byddwn ond yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn gyfreithiol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 1998, Erthygl 8 o'r Deddf Hawliau Dynol, Cyfraith Cyffredin Cyfrinachedd, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Chodau'r GIG ar Gyfrinachedd a Diogelwch. Rhaid i bawb sy'n gweithio yn y GIG neu iddo ddefnyddio gwybodaeth bersonol mewn modd diogel a chyfrinachol.

Byddwch yn ymwybodol y bydd staff y feddygfa nad ydynt yn glinigol yn cael mynediad at eich gwybodaeth er mwyn gwneud tasgau sy'n galluogi gweithredu'r Feddygfa. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Teipio llythyrau cyfeirio at Feddygon Ymgynghorol Ysbyty neu Weithwyr Proffesiynol Iechyd cysylltiedig
- Agor llythyrau gan ysbytai a Meddygon Ymgynghorol
- Sganio llythyrau clinigol, adroddiadau a llawer o ddogfennau eraill nad ydynt ar gael yn electronig
- Llungopio neu argraffu dogfennau ar gyfer cyfeirio at feddygon ymgynghorol
- Trin, argraffu, llungopio a chludo adroddiadau sicrwydd meddygol, cyfreithiol a bywyd a dogfennau cysylltiedig eraill
- Pan fyddwch yn cofrestru gyda'r Feddygfa efallai byddwn yn gofyn am dystiolaeth o'ch ID - mae hyn i sicrhau nad oes neb yn ceisio'ch cofrestru chi yn y Feddygfa gan ddefnyddio'ch hunaniaeth ond heb eich gwybodaeth. Gallwn eich sicrhau y bydd unrhyw gopïau o ID y byddwn yn ei gymryd ar y pwynt hwnnw yn cael eu dinistrio unwaith bydd gennym gadarnhad o'ch cofrestrriad gan GIG Cymru. Bydd hyn yn cymryd 2-3 diwrnod ar y mwyaf.

MEDDYGFA WAUNFAWR

DATGANIAD PREIFATRWYDD

Er mwyn diogelu eich cyfrinachedd, ni fyddem fel arfer yn datgelu unrhyw wybodaeth feddygol amdanoch dros y ffôn, neu drwy ffacs, oni bai ein bod yn sicr ein bod yn siarad â chi. Golyga hyn na fyddwn yn datgelu gwybodaeth i'ch teulu, ffrindiau a chydweithwyr am unrhyw faterion meddygol o gwbl, oni bai ein bod yn gwybod bod gennym eich cydsyniad i wneud hynny.

Byddwn ond yn anfon eich gwybodaeth ymlaen os bydd yn angenrheidiol gwneud hynny. Ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth amdanoch i drydydd parti heb eich caniatâd oni bai bod amgylchiadau eithriadol, fel pan fydd y gyfraith yn gofyn amdano.

Bydd pawb yn y feddygfa (p'un ai a gyflogwyd gan y meddygon, neu ar gyfer y Bwrdd Iechyd Lleol) yn arwyddo cytundeb cyfrinachedd sy'n egluro'n glir, eu dyletswyddau o ran gwybodaeth iechyd personol a goblygiadau torri'r ddyletswydd honno.

Hawl i Gael Mynediad at Eich Gwybodaeth Iechyd

Mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn eich galluogi i ddod o hyd i ba wybodaeth amdanoch chi a gedwir ar gofnodion ag ysgrifennwyd â llaw a chyfrifiadurol. Caiff hyn ei adnabod fel "hawl at fynediad amodol" ac mae'n ymwneud â gwybodaeth bersonol a gedwir amdanoch. Os ydych eisiau gweld neu dderbyn gwybodaeth y mae'r Feddygfa'n cadw amdanoch:

- Bydd angen i chi wneud cais i reolwr y practis
- Efallai byddwn yn gofyn i chi gwblhau ffurflen gais i sefydlu'n union pa rannau o'ch cofnod sydd ei angen arnoch.
- Bydd angen i chi roi gwybodaeth ddigonol i ni er mwyn i ni fod yn sicr bod eich cais yn gyfreithlon (ess, dyddiad geni, rhif GIG ac ati) yn ogystal â dau fath o hunaniaeth i'n galluogi i gadarnhau eich hunaniaeth - gyda rhestr meddygfa hir.
- Efallai bydd cost os bydd gormod o geisiadau am wybodaeth a gedwir amdanoch.
- Mae gofyn i ni ymateb i chi o fewn mis

Pwy Arall a All Ofyn i Gael Mynediad at fy Ngwybodaeth

- Gall y **Llys** fynnu ein bod yn datgelu cofnodion meddygol iddynt
- Yn aml bydd **Cyfreithwyr** yn gofyn am adroddiadau meddygol. Bydd angen cydsyniad wedi'i arwyddo arnom i ni allu datgelu gwybodaeth. Ni fyddwn fel arfer yn rhyddhau manylion am eraill a geir yn eich cofnodion (e.e. gwraig, plant, rhieni ac ati) oni bai bod gennym eu cydsyniad hefyd;
- **Gwasanaethau Cymdeithasol** - Efallai bydd yr Asiantaeth Budd-daliadau ac eraill yn gofyn i chi gael eich cofnodion meddygol arnoch o dro i dro. Bydd angen eich cydsyniad wedi'i arwyddo er mwyn rhoi gwybodaeth iddynt.
- **Mae Cwmnïau Sicrwydd Bywyd/Cyflogwyr/Meddygon Iechyd Galwedigaethol** yn aml yn gofyn am adroddiadau meddygol am unigolion. Bydd y rhain bob amser yn dod gyda'ch ffurflen gydsynio wedi'i arwyddo.

Byddwn ond yn datgelu'r wybodaeth feddygol berthnasol yn unol â'ch cydsyniad. Efallai bydd gennych yr hawl, os byddwch yn dymuno gofyn amdano, i weld adroddiadau a baratowyd i Gwmnïau Yswiriant, cyflogwyr neu Feddygon Iechyd Galwedigaethol cyn iddynt gael eu hanfon.

MEDDYGFA WAUNFAWR

DATGANIAD PREIFATRWYDD

Rhannu eich Gwybodaeth heb Gydsyniad

Fel arfer byddwn yn gofyn am eich cydsyniad, ond bydd adegau pan fydd gofyn i ni gan y gyfraith i rannu eich gwybodaeth heb eich cydsyniad, er enghraifft:

- Lle mae risg difrifol o niwed neu gam-drin i chi neu eraill
- Pan fydd trosedd ddifrifol, fel ymosodiad, yn cael ei archwilio neu lle gellir ei atal
- Lle byddwn yn dod ar draws afiechydon heintus a all beryglu diogelwch eraill, fel llid yr ymennydd neu'r frech goch (ond nid gwybodaeth sensitif fel HIV/AIDS)
- Lle bydd Gorchymyn Llys ffurfiol wedi'i roi
- Lle bydd gofyn cyfreithiol e.e. os ydych wedi cyflawni Trosedd Traffig y Ffordd

Mae'r Feddygfa'n ymrwymo i sicrhau bod eich preifatrwydd yn cael ei ddiogelu.

Newid Manylion

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym os bydd unrhyw ran o'ch manylion fel eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn cartref neu'ch rhif ffôn symudol wedi newid neu os bydd unrhyw ran o'ch manylion fel eich dyddiad geni yn anghywir er mwyn i hyn gael ei newid. Mae gennych gyfrifoldeb i roi gwybod i ni o unrhyw newidiadau fel bod ein cofnodion yn aros yn gywir a chyfredol bob amser.

Eich Rhif GIG

Mae gan bawb sydd wedi cofrestru gyda'r GIG yng Nghymru a Lloegr eu rhif GIG unigryw. Mae cynnwys 10 digid - er enghraifft 123 456 7890.

Caiff eich rhif GIG ei ddefnyddio gan staff gofal iechyd i'ch hadnabod yn gywir. Mae'n gam pwysig tuag at wella diogelwch eich gofal iechyd. Er mwyn gwella diogelwch a chywirdeb gwiriwch eich rhif GIG ar ohebiaeth y mae'r GIG yn ei anfon atoch bob amser.

Os nad ydych yn gwybod eich rhif GIG, gofynnwch i'r Feddygfa. Efallai bydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth o'ch hunaniaeth er enghraifft pasport neu ddull arall o hunaniaeth. Mae hyn er mwyn diogelu'ch preifatrwydd.

Nid yw'r Rhybudd Preifatrwydd hwn yn rhoi manylion trwyadl o bob agwedd o gasglu a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol gan Feddygfa Llanberis. Fodd bynnag, rydym yn hapus i roi unrhyw eglurhad neu wybodaeth ychwanegol sydd ei angen arnoch. Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â:

Rheolwr y Practis, Meddygfa Waunfawr, Liverpool House, Waunfawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 4YY.

Ffôn: 01286 650922

MEDDYGFA WAUNFAWR DATGANIAD PREIFATRWYDD

Cwynion

Os bydd gennych gwyn o ran sut mae'ch gwybodaeth yn cael ei reoli yn y feddygfa, cysylltwch â Rheolwr y Feddygfa. Os ydych yn parhau i fod yn anhapus gydag ymateb y feddygfa, gallwch gwyno i'r Swyddog Comisiynu Gwybodaeth www.ico.gov.uk

Newidiadau i'r Rhybudd Preifatrwydd Hwn

Rydym yn cadw ein Rhybudd Preifatrwydd o dan adolygiad rheolaidd. Bydd y Rhybudd Preifatrwydd hwn yn cael ei adolygu nesaf ym mis Mai 2019.